

Cofnodion Cyfarfod Cyngor Tref y Bala:
Nos Iau Mai 2, 2013

954. Croeso. Croesawodd y Maer y Cyng. Dorothe Evans bawb i'r cyfarfod cyffredinol yn dilyn y cyfarfod blynyddol.

Yn bresennol y Cynghorwyr Alun Price, Eifion Roberts, John C. Williams, Shan Ranson, Dilwyn T. Jones, Dorothe Evans, Edith Roberts, Dilys Evans, Ivora Jones, Eluned Jones; y Cynghorydd Sir, Dilwyn Morgan ynghyd a'r Heddlu Lona Davenport ac R. I. Roberts, a'r Clerc.

955. Ymddiheuriadau: Y Cyng. Sharon Evans ac Islwyn Pritchard-Jones.

956. Datgan Buddiant: Y Cyng. Eluned Jones. (cais cynllunio 103 Stryd Fawr, Y Bala).

957. Yr Heddlu. Croesawyd Lona Davenport ac Iwan Roberts i'r cyfarfod. Adroddwyd bod eisiau i bawb fod yn wyliadwrus – achosion o ddwyn olew cynhesu. Bydd y fan mesur cyflymdra yn ol ac os oes unrhyw achosion o or-yrru rhaid rhoi gwybod i Iwan neu Lona ar frys. Eisiau gofyn i Go-Safe faint yw nifer o achosion o or-yrru sydd yn Y Bala – bydd y wybodaeth yn fanteisiol ar gyfer ar safle croesi ger y Co-op newydd (os ceir caniatad cynllunio). Bydd yr achos o lofruddiaeth a ddigwyddodd yn Y Plase llynedd yn mynd i'r llys ar Fai 13. Problem cyffiriau yn dal o gwmpas – cyffuriau newydd nawr ar gael. Diolchwyd i Iwan a Lona am eu presenoldeb ac dywedwyd bodeu gweld ar y Stryd fawr yn tawelu meddwl yr ardalwyr. Penderfynwyd anfon gair o ddiolch i Mark Armstrong yn y Pencadlys yn canmol y ddau am eu gwaith ardderchog yn Y Bala.

958. Cofnodion, Ebrill 4, 2013. Cynigwyd bod y cofnodion yn gywir a'i harwyddo.

959. Materion yn codi o'r cofnodion

a) **Dwr Cymru.** Gwahoddiad i agor gwaith trin dwr yn Llidiardau. Buddsoddiad gwerth £7 miliwn. Y Maer Dorothe Evans a'r Dirprwy Ivora i fynychu.

b) **PAYE.** Nodyn gan Lis Puw o'r Bartneriaeth yn gofyn a oes modd rhoi pob clerc yn yr ardal dan un 'pay-roll' o dan ofal Mantell Gwynedd. Rhaid gwneud hyn cyn Mai 20. Y Clerc i gysylltu a Lis Puw, os nad oes ymateb yna cario ymlaen gyda'r Cyfrifwyr Hill & Roberts, Y Bala.

c) **Diwrnod Hwyl ar Fai 30 dan ofal Cartrefi Cymunedol Gwynedd.** Poster i'w rhannu allan – hwn i'w gynnal yn Ysgol y Berwyn.

d) **Tro Trefol.** Y Clerc heb dderbyn yr anfoneb i dalu i'r Grwp Twristiaeth. Cafwyd caniatáu i dalu yn syth pan ddaw'r anfoneb.

e) **PO Box.** Y drefn i gario ymlaen fel y mae ar hyn o bryd.

960. Materion gan y Cynghorydd Sir, Dilwyn Morgan.

Parcio ym Mro Eryl yn dal y broblem. Anfon at Cyngor Gwynedd a Cartrefi Cymunedol Gwynedd eto. Llefydd parcio anabl ar y Stryd Fawr eisiau sylw. Hefyd derbyniwyd llythyr trwy law Ivora Jones gan berson o Cae Gadlas yn pryderu am fynediad uchel i rai o siopau ar Stryd Fawr Y Bala. Y Cyng. Sir i edrych mewn i'r mater. Gofynnwyd i'r Cynghorydd Sir pryd mae ffordd Heol y Castell yn cael ei wneud. Roedd ef yn mynd i ofyn am ddyddiad pendant gan y Cyngor Sir.

961. Cynllunio

NP/53/L234A. Estyniad cefn ac adeiladu garej ar wahan yng nghefn 103 Stryd Fawr. Nid oedd gwrthwynebiad.

Arwyddwyd.....Maer

ArwyddwydClerc

NP5/53/T416C: Amnewid ffenestri drysau a newid defnydd y fflat ar y llawr cyntaf i westy, a newid defnydd y becws ar y llawr gwaelod i gynnwys ystafell de. Lleoliad: Siop Gornel 21 Heol Tegid Y Bala. Cafwyd trafodaeth a rhoddwyd sylwadau ynglyn a'r amser agor sef o 7 y bore tan 11 o'r nos. Y Cynghorwyr yn bryderus am hyn gan fod y safle mewn ardal trigiannol; hefyd diffyg safle parcio.

Derbyniwyd caniatad cynllunio i geisiadau: NP5/53/86D –adeiladu ystafell wydr i gefn 1 Glannau Tegid a hefyd cais NP5/53/132J greu cegin a lle bwyta newydd, cyfleusterau storio allan a gwaith cysylltiedig Adeilad Pafiiwn, Maes Gwyniad. Derbyniwyd sylw gan y swyddog cynllunio cynorthwyol yn nodi na fydd cerbydau adeiladu yn cael parcio yn y maes parcio cyhoeddus dros gyfnod y datblygiad ac nas oes ganddynt fwriad i wneud cais am drwydded i werthu alcohol ar y safle.

962. Materion Ariannol

Cafwyd caniatad i dalu y canlynol:

1. Aon Yswiriant. £827.94.;
2. Martin Jones, Hafoty Penantlliw, Tynnu set bus stop a torri brackets i ffwrdd £54.00
3. Bala & Penllyn Tourism. Pan ddaw yr anfoneb y Clerc i'w dalu £800.00

Cafwyd cadarnhad bod taliad o £8,250 wedi ei dderbyn gan Cyngor Gwynedd – precept.

Partneriaeth Penllyn. Arian i'r Bartneriaeth yn dod i gyfrif Banc Cyngor Tref Y Bala yn fuan ac eisiau ei drosglwyddo. £17270.97.

963. Gohebiaeth

- a. Un Llais Cymru - cyfarfod yn Nolgellau Ebrill 23; Copi o rifyn Gwanwyn 'Y Llais'.
- b. Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd a Mon. Ymgynghori
- c. Arsyllfa Wledig Cymru. Arolwg o wasanaethau gwledig. Y Cyng. Alun Price i'w lenwi.
- d. Noson agoriadol Gwersyll Glanllyn Ebrill 29. Agor bloc i gysgu ychwaneg – nawr 260 o bobl yn gallu aros.
- e. Er gwybodaeth – Llyfryn – Y Clerc Hanfodol.
- f. Diolch. Cyfraniad i Tim achub a chwilio de Eryri.
- g. Cyngor Gwynedd. Rhaglen waith: Gwaith draeniadau ar ffordd diddosbarth rhif 341 – ffordd Golff.

964. Rhestr asedau.

Nid oedd unrhyw fater wedi codi.

965. Unrhyw fater arall

1. Tomen Y Bala. Y cynghorwyr yn pryderu bod plant yn chwarae ar y Domen. Eisiau anfon llythyr i'r ddwy ysgol gynradd i rybuddio'r plant ac hefyd i ddweud wrthynt am barchu'r Domen.
2. Pennaeth ysgol Bro Tegid. Anfon llythyr o ddiolch i'r Pennaeth Mrs Dorothy Ann Jones sydd yn ymddeol o'i swydd.
3. Grwp Siopa/Twristiaeth. Tro Trefol yn cael ei ail wneud a hefyd cystadleuaeth i blant.

Arwyddwyd.....Maer

ArwyddwydClerc